# DEDDF CYMWYSTERAU CYMRU 2015

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

***Atodlen 1* Cymwysterau Cymru**

**Atodlen 1Rhan 2**

***Paragraffau 36 - 40: Diwygiadau canlyniadol***

139. Mae’r paragraffau hyn yn cynnwys diwygiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol. Effaith y diwygiadau hyn yw:

a) y bydd Cymwysterau Cymru yn dod yn ddarostyngedig i gael ei adolygu gan Gomisiynydd Plant Cymru a Chomisiynydd Pobl H#n Cymru;

b) bod rhaid i Gymwysterau Cymru lynu wrth ofynion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000;

c) y caiff Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ymchwilio i Gymwysterau Cymru; a

d) bod rhaid i Gymwysterau Cymru gydymffurfio â dyletswyddau o dan Deddf Cydraddoldeb 2010.